



# CANLLAWIAU YMARFER GORCHMYNION AMDDIFFYN A CHYNORTHWYO OEDOLION

Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru	Dyddiad: Rhagfyr 2020 Diweddarwyd: Ionawr 2022	Statws: Grŵp P & P wedi'i gymeradwyo
--------------------------------------	---	--------------------------------------

## 1.0. PWRPAS A CHWMPAS Y CANLLAWIAU YMARFER

1.1. Mae Adran 127, Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) yn cyflwyno Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Mae'r Gorchmynion hyn yn darparu fframwaith deddfwriaethol i ganiatáu i Swyddog Awdurdodedig o'r Awdurdod Lleol wneud cais i Lys yr ynadon i wneud y canlynol;

- Galluogi Swyddog Awdurdodedig, ac unrhyw berson arall sy'n mynd gyda'r swyddog, i siarad yn breifat â pherson yr amheuir ei fod yn oedolyn mewn perygl;
- Galluogi Swyddog Awdurdodedig i ganfod a yw'r person hwnnw'n gwneud penderfyniadau o'i wirfodd; a
- Galluogi Swyddog Awdurdodedig i asesu'n briodol a yw'r person yn oedolyn mewn perygl ac i wneud penderfyniad yn unol â gofynion adran 126(2) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd.

**Mae'n bwysig bod yr holl staff yn ymwybodol nad oes gan APSO unrhyw bŵer i symud yr oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl nac unrhyw un yr amheuir ei fod wedi cyflawni cam-drin o'u heiddo.**

1.2. Mae manylion llawn Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gorchmynion Cymorth Amddiffyn Oedolion, Gweithio Gyda'n Gilydd i ddiogelu pobl, Cyfrol 4, ar gael drwy ddilyn y ddolen isod

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/160909safeguarden.pdf>

1.3. Mae Rheoliadau Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015 yn gosod cyfyngiadau ar bwy all weithredu fel Swyddog Awdurdodedig. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod swyddog o'r awdurdod lleol lle mae'r "oedolyn mewn perygl" yn byw yn gweithredu fel Swyddog Awdurdodedig. Os nad yw hyn yn ymarferol, dylai'r Swyddog Awdurdodedig fod yn swyddog o awdurdod lleol yn ardal y Bwrdd Diogelu ac os nad yw hyn yn ymarferol, gall Swyddog Awdurdodedig fod yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru. Gorchmynion sifil yw APSO y gellir eu ceisio gan Swyddog Awdurdodedig. Rhaid i Swyddog Awdurdodedig fod yn berson a awdurdodir gan awdurdod lleol at y diben hwnnw.

1.4. Mae gan ranbarth Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru y Swyddogion Awdurdodedig canlynol:

**Ynys Môn:**

Sioned Williams (cyfreithiol yn unig)  
[SionedWilliams2@ynysmon.gov.ukwy](mailto:SionedWilliams2@ynysmon.gov.ukwy):  
Olwena Davey  
[OlwenaDavey@ynysmon.gov.uk](mailto:OlwenaDavey@ynysmon.gov.uk)

**Conwy:**

Arweinydd Diogelu Oedolion.

**Sir Ddinbych:**

Alaw Pierce – Rheolwr Gwasanaeth Diogelu Oedolion  
Nerys Tompsett – Rheolwr Tîm Diogelu Oedolion

**Sir y Fflint:**

Mark A Jones: MARK.JONES6@wales.nhs.uk  
Christopher Phillips: [christopher.phillips@flintshire.gov.uk](mailto:christopher.phillips@flintshire.gov.uk)

**Gwynedd:**

Helen Fôn Owen (Uwch reolwr gwasanaethau LD)  
Erin Wyn (twrnai i Wasanaethau Oedolion)  
Angharad Jones (Gweithiwr Cymdeithasol mewn tîm Oedolion)  
Ruth Evans (Gweithwyr Cymdeithasol mewn Tîm Oedolion)

**Wrecsam:**  
298208

Rheolwr Tîm Diogelu Oedolion 01978 292910 neu 01978

E-bost: [ast@wrexham.gov.uk](mailto:ast@wrexham.gov.uk)

- 1.5. Pwrpas y canllaw ymarfer hwn yw nodi'r trefniadau ar gyfer cyflawni rôl y Swyddog Awdurdodedig yn weithredol, y broses ymgeisio a sut y dylai asiantaethau partner weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod yr arferion gorau'n cael eu cyflawni.

**2.0. PRYD Y GALL APSO FOD YN BRIODOL**

- 2.1. Rhagwelir mai anaml iawn y bydd APSO yn cael eu ceisio. Dim ond pan fydd dulliau llai ymwithiol eraill wedi methu neu'n debygol iawn o fethu y bydd ceisiadau yn cael eu gwneud. Y canlyniad a fwriedir yw bod ceisiadau i'r Llys yn cael eu gwneud dim ond ar ôl i bob cam arall i siarad yn breifat â'r unigolyn gael eu cwblhau cyn defnyddio'r broses gyfreithiol. Fodd bynnag, nid oes rhaid i Swyddogion Awdurdodedig brofi'r angen am yr APSO y tu hwnt i bob amheuaeth resymol: Mae'r Gorchymyn yn orchymyn sifil a bydd yr Ynad yn gwneud penderfyniad arno yn seiliedig ar gydbwysedd tebygolrwydd. Yn rhannol, yr angen am yr APSO yw nad oes digon o wybodaeth am yr oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl.
- 2.2. Bydd angen i'r Swyddog Awdurdodedig allu dangos bod y seiliau dan adran 127(4) yn cael eu nodi, h.y.
- bod achos rhesymol dros amau bod oedolyn yn oedolyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso;
  - ei bod yn angenrheidiol i'r swyddfa awdurdodedig gael mynediad at y person er mwyn asesu'n briodol a yw'r person yn oedolyn mewn perygl a phenderfynu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd;
  - bod gwneud gorchymyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r dibenion a nodir yn adran 127(2) (fel y disgrifir uchod); a
  - na fydd arfer y pŵer mynediad a roddir gan y gorchymyn yn peri bod y person mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

**3.0. PRYD NA FYDD APSO YN BRIODOL**

- 3.1. Mae APSO wedi'u cynllunio i alluogi oedolion agored i niwed i fynegi eu barn yn annibynnol i Swyddog Awdurdodedig lle mae lle i gredu eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Fodd bynnag, efallai na fydd APSO yn briodol os:

- gallai rhoi APSO adael yr unigolyn mewn mwy o berygl;
- ni ystyriwyd dulliau eraill llai ymwithiol

3.2. Dylid hefyd ystyried opsiynau cyfreithiol eraill, gan y gallent fod yn fwy priodol ac effeithiol. Gallai'r rhain gynnwys:

- cais am Orchymyn a Hysbysiad Diogelu Trais yn y Cartref gan yr Heddlu sy'n galluogi'r sawl yr amheuir ei fod wedi cyflawni trosedd i gael ei symud o'r eiddo
- cais brys i'r Llys Gwarchod dan Adran 16, Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- cais o dan A135(1), Deddf Iechyd Meddwl 1983 gan Weithiwr Iechyd Meddwl Cymeradwy, a fyddai'n caniatáu i'r oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl gael ei symud o'r eiddo i fan diogel ar gyfer asesiad pellach o'i anghenion.

#### 4.0. CAIS I GAIS APSO GAEL EI YSTYRIED:

4.1. **Dylid darllen Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 4 ar y cyd â'r protocol hwn. Mae'r protocol hwn yn rhoi sylw penodol i'r ystyriaethau ymarferol ar gyfer ceisiadau APSO ar gyfer oedolion dan amheuaeth o risg sy'n byw yn ardal Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ac nid yw'n disodli'r canllawiau uchod.**

4.2. Disgwylir mai dim ond drwy adroddiadau Diogelu dan Adran 128 SSWBA y bydd ymholiadau ynghylch yr angen i wneud cais am APSO yn cael eu cynhyrchu. Os canfyddir yn ystod ymholiad Adran 126 (SSWBA) y gallai fod angen gwneud cais am APSO, bydd yr Ymarferydd Arweiniol yn yr achos perthnasol yn trafod yr achos gyda'r swyddog arweiniol perthnasol yn ei sefydliad (os nad ydynt ar gael, bydd angen cynnal trafodaeth gyda Swyddog Awdurdodedig arall, yn ddelfrydol o'r Awdurdod lle mae'r Oedolyn yr amheuir ei fod mewn Perygl yn byw, ond, os nad yw hyn yn bosibl, gan unrhyw Swyddog Awdurdodedig yng Ngogledd Cymru). Bydd yr ymarferydd arweiniol yn nodi Swyddog Awdurdodedig priodol i ymgymryd â'r darn hwn o waith.

4.3. Yn y lle cyntaf, bydd y Swyddog Awdurdodedig penodedig yn mynychu'r cyfarfod strategaeth, gyda chynghorydd cyfreithiol o bosibl ar gyfer yr Awdurdod lle mae'r oedolyn dan amheuaeth o fod mewn perygl yn byw, er mwyn casglu'r holl wybodaeth berthnasol er mwyn asesu a oes angen gwneud cais. Mae'n hanfodol bod yr heddlu'n cael eu cynnwys drwy gydol y broses o ystyried y cais gan y bydd eu cyfraniad yn debygol o fod yn angenrheidiol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r APSO. Os cynhaliwyd cyfarfod/trafodaeth strategol o'r blaen, yna bydd angen ailgynnull hyn er mwyn hwyluso presenoldeb y Swyddog Awdurdodedig, y cynrychiolydd cyfreithiol a'r heddlu.

4.4. Yn y cyfarfod strategaeth, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn sicrhau bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cymryd er mwyn ymgysylltu â'r Oedolyn mewn Perygl: mae hyn yn hanfodol wrth ddarparu tystiolaeth i'r Llys pe bai cais yn cael ei wneud, gan y bydd angen i'r Swyddog ddangos bod dewisiadau eraill yn hytrach nag APSO wedi cael eu hystyried yn llawn. Mae'r APSO yn Orchymyn pan fydd popeth arall

wedi methu. Gall y Swyddog Awdurdodedig wneud rhagor o argymhellion cyn gwneud y cais a bydd yn rhoi cyngor ar y rhain drwy gydol y broses ddiogelu.

4.5. Os bydd y Swyddog Awdurdodedig yn cytuno bod cais APSO yn angenrheidiol ac yn gymesur, bydd yn gweithio gyda'r cynghorydd cyfreithiol priodol i lenwi a chyflwyno'r cais i'r Llys a bydd yn gwneud hynny gan ddilyn y dull cam wrth gam yn y canllawiau:

- Casglu Tystiolaeth
- Ystyried pa bobl y dylid gwneud cais i gael eu henwi yn y Gorchymyn. Dylid ystyried yn benodol yr hyn a wyddys am anghenion eiriolaeth neu gyfathrebu'r oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl.
- Ystyried faint o gysylltiadau y dylid gofyn amdanynt a'r amserlen ar gyfer cynnal y cysylltiadau hynny
- Ystyried a ddylid gofyn am gais ex parte (heb rybudd)
- Llenwi a chyflwyno'r cais i'r Llys Ynadon (gan gynnwys trefniadau ar gyfer talu ffi'r Llys)
- Y gwrandawriad
- Cynllunio a chefnogi rheoli risg ar unwaith ar ôl APSO

4.6. Bydd y swyddog APSO yn sicrhau ei fod yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer gweithredu'r Gorchymyn, gan gynnwys cynllunio strategaeth ymadael a fydd yn nodi'r gefnogaeth briodol i'r oedolyn mewn perygl: mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei ddiogelu, yn derbyn gofal a'i gefnogi'n barhaus. Bydd angen cynllunio hyn yn effeithiol yn ystod proses y cyfarfod strategaeth a bydd angen dangos tystiolaeth i'r Llys yn y cais.

4.7. Os mynegir pryderon mewn perthynas â'r broses gwneud penderfyniadau, cyfeirir y rhain fel achosion pryder i'r is-grŵp sicrhau ansawdd oedolion.

4.8. Er mwyn i'r cais gael ei glywed yn y Llys ac wrth weithredu'r Gorchymyn, bydd angen i'r Swyddog Awdurdodedig ddarparu manylion adnabod i'r oedolyn mewn perygl a rhoi'r rhesymau pam ei fod yn bresennol (mae canllawiau uniongyrchol ar hyn ar gael yng Nghyfrol 4). Bydd angen cefnogaeth yr heddlu bron yn sicr wrth weithredu'r Gorchymyn i sicrhau y gellir cyflawni'r nodau heb roi'r oedolyn mewn perygl, unrhyw breswylwyr eraill yn yr annedd neu'r Swyddog Awdurdodedig mewn unrhyw berygl.

## **5.0. GWEITHREDU'R APSO**

5.1. Pan fydd ADO wedi'i wneud, caiff y Swyddog Awdurdodedig, swyddog yr heddlu ac unrhyw bersonau eraill a bennir yn y Gorchymyn fynd i mewn i eiddo, gan ddefnyddio grym rhesymol os oes angen, lle bo oedolyn mewn perygl yn byw er mwyn siarad yn breifat gyda'r oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl. Mae gan yr heddlu'r grym i ymyrryd os bydd unrhyw un yn rhwystro'r sgwrs breifat hon.

5.2. Dylai'r Swyddog Awdurdodedig egluro i'r oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl ac i unrhyw berson arall sy'n bresennol yn yr eiddo bod Gorchymyn wedi'i roi a bod ganddo gopiâu o'r Gorchymyn i'w rhoi i'r oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl.

- 5.3. Bydd y Swyddog Awdurdodedig yn arwain y sgwrs a dylai hyn gynnwys ystyried risg, statws iechyd, capasiti a gallu'r person i'w amddiffyn ei hun. Bydd angen iddo hefyd gynnwys asesiad o ddealltwriaeth y person o'r hyn sy'n digwydd a beth yw ei ddymuniadau. Rhaid rhoi pwys priodol ar eu dymuniadau gan ystyried y posibilrwydd o ddylanwad gormodol.
- 5.4. Mae adran 127(2)(b) yn datgan mai un o ddibenion yr APSO yw sicrhau bod yr oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl yn 'gwneud penderfyniadau'n rhydd'. Mae'n dilyn y dylai'r rhai sy'n ymwneud â gweithredu'r APSO sicrhau nad ydynt yn defnyddio dylanwad gormodol. Rhaid iddynt fod yn ymwybodol y gall yr oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl deimlo dan fygythiad oherwydd y defnydd o bwerau statudol a phresenoldeb nifer o ddieithriaid yn eu cartref, gan gynnwys cwnstabl. Efallai y bydd angen eiriolwr i sicrhau bod y person yn gallu herio barn ymarferwyr.
- 5.5. Bydd yn bwysig datblygu strategaeth ymadael er mwyn i'r swyddog awdurdodedig allu egluro'n glir, i'r person agored i niwed ac i'r preswylwyr eraill, beth sy'n digwydd ar ôl yr ymweliad, unrhyw gamau dilynol sy'n cael eu cynnig, ac unrhyw ffynonellau cymorth sydd ar gael iddynt.

## **6.0. GWEITHREDU YN DILYN CAIS APSO**

- 6.1. Yn dilyn y cais a gweithredu'r warrant wedi hynny, mae'n hanfodol bod cyfarfod strategaeth yn cael ei ail-gynnull a'i gynnal i rannu gwybodaeth a chynllunio'n effeithiol. Fodd bynnag, os yw'r Oedolyn mewn Perygl yn gwrthod rhannu gwybodaeth ac nad yw'n dymuno cynnwys gwasanaethau gwarchodol, nid oes unrhyw bryderon ynghylch ei allu meddyliol i wneud y penderfyniad hwn neu, er ei fod wedi'i gyfyngu'n feddyliol, bod yr Oedolyn mewn Perygl yn destun rheolaeth drwy orfodaeth, ac nid oes unrhyw bryderon am ddiogelwch Oedolion eraill mewn Perygl, plant na'r cyhoedd, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn bwydo hyn yn ôl i'r Ymarferydd Arweiniol/Swyddog Diogelu.
- 6.2. Bydd y camau gweithredu uchod yn cael eu cwblhau'n uniongyrchol ar ôl i'r Gorchymyn gael ei roi ar waith.
- 6.3. Bydd y swyddog ASPO yn darparu crynodeb i is-grŵp Cyflawni Lleol perthnasol Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd a bydd yn trefnu sesiwn briffio ar gyfer Swyddogion Awdurdodedig eraill.

## Atodiad A

### Ffurflen gais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

#### Cais drwy gwyn am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a.127

Llys Ynadon (Cod):

.....

Dyddiad:

.....

Pwnc y Gorchymyn:

.....

Cyfeiriad:

.....

.....

.....

Awdurdod sy'n gwneud cais:

.....

.....

Honnir:

(a) bod. yn dioddef, neu

mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, bod ganddo anghenion am ofal neu gymorth ac o ganlyniad i'r anghenion hynny nad yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag y gamdriniaeth neu'r esgeulustod neu'r risg o hynny; a

(b) bod Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn angenrheidiol er mwyn i'r Swyddog Awdurdodedig gael mynediad at y person a enwir uchod, er mwyn asesu'n briodol a yw'r person yn oedolyn mewn perygl a phenderfynu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd; a

(c) mae gwneud gorchymyn yn angenrheidiol i gyflawni'r dibenion a nodir yn adran 127(2) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; a

(d) ni fydd arfer y pŵer mynediad a roddir gan y gorchymyn yn golygu bod y person a enwir uchod mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Disgrifiad byr o'r rhesymau dros y cais:

(a).....

(b).....

(c).....

(d).....

Credaf ei bod yn briodol i'r person(au) canlynol ddod gyda mi wrth ymarfer y gorchymyn (yn unol ag Adran 127(6)(b) y Ddeddf):

(a).....

(b).....

(c).....

(d).....

Ydych chi am i'r cais hwn gael ei glywed?

i) heb roi rhybudd i'r diffynnydd; neu

ii) gyda rhybudd yn cael ei roi i'r diffynnydd.

Os ydych yn dymuno i'r cais gael ei glywed heb rybudd, nodwch y rhesymau:

.....  
.....  
.....

Ydych chi am i orchymyn gael ei roi gyda neu heb ofyniad i roi hysbysiad i feddiannydd y fangre ac i'r person yr amheuir ei fod yn oedolyn mewn perygl? Nodwch y rhesymau:

.....  
.....  
.....

Rhaid i'r gorchymyn bennu'r cyfnod y mae mewn grym ar ei gyfer. A oes unrhyw faterion yr hoffech eu codi sy'n berthnasol i'r cwestiwn hwn?

.....  
.....

Enw'r Awdurdod sy'n gwneud y Cais:

.....  
.....

Cyfeiriad yr Awdurdod sy'n gwneud y Cais:

.....  
.....

Sy'n datgan bod y manylion uchod yn ddisgrifiad gwir a chywir o'r sail y gwneir y gŵyn hon arni:

.....

Sy'n datgan bod y manylion uchod yn ddisgrifiad gwir a chywir o'r sail y gwneir y gŵyn hon arni:

.....  
.....  
.....



Cymerwyd ger fy mron i

Ynad Heddwch

[Trwy orchymyn cler c y llys]

Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r cais hwn yn eich barn chi:

.....  
.....  
.....  
..

Dyma enghreifftiau o berson o'r fath a allai fynd gyda Swyddog Awdurdodedig:

- y gweithiwr allweddol (gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal iechyd);
- gweithiwr gofal cartref;
- eiriolwr proffesiynol;
- aelod o'r teulu neu ffrind agos;
- asesydd lles pennaf;
- ymarferydd cyffredinol; neu
- Weithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

## ATODIAD B SIART LLIF

A yw'r unigolyn yn Oedolyn yr Amheuir ei fod mewn Perygl?



A wnaed pob ymdrech i siarad â'r person yn breifat ac a ydynt wedi methu?



A yw'r pryderon wedi cael eu cofnodi a'r holl ymdrechion i siarad â'r oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl wedi cael eu cofnodi?



Os ydynt, rhowch wybod am eich pryderon i'r Awdurdod Lleol a fydd yn cysylltu â Swyddog Awdurdodedig os bydd angen, a bydd yn trefnu cyfarfod strategaeth aml-asiantaeth i rannu gwybodaeth a chasglu tystiolaeth ychwanegol. Dylid llunio mantolen o fanteision a risgiau gwneud cais APSO yn y cyfarfod.



Os mai canlyniad y cyfarfod strategaeth yw y dylid gwneud cais APSO, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn gweithio gyda chynghorydd cyfreithiol yr Awdurdod Lleol i baratoi a chyflwyno'r cais i'r Llys.



Bydd y Swyddog Awdurdodedig, y Cynghorydd Cyfreithiol ac unrhyw dystion yn dod i'r Llys ac yn rhoi tystiolaeth yn ôl y gofyn.



Os caniateir yr APSO, rhaid rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i'r person, gan gynnwys copi o Orchymyn y Llys, ynghyd â gwybodaeth ysgrifenedig am gwynion



Cynllunio a gweithredu'r Gorchymyn yn unol â chyfarwyddyd y Llys a chynnal y sgwrs yn breifat gyda'r oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl.



Datblygu strategaeth ymadael a chefnogaeth barhaus os oes angen



Cofnodi canlyniadau



Unrhyw APSO nas defnyddiwyd i'w ddychwelyd i'r Llys